# Nodyn cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru: Cyfarfod Rhif 77 |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 5 Mawrth 2024 |
| **Amser y cyfarfod:** | 10:30-13:00 |
| **Yn bresennol:**<br><br>**(*= dirprwyo ar ran cynrychiolydd a enwir)** | **Aelodau a chynrychiolwyr a enwir:**<br><br>Geraint Davies, Cadeirydd CNC, Carys Drew, Ysgrifennydd CNC, Rosie Plummer CNC, Rachel Evans, CA, Beverley Penney, OSS, Jont Bulbeck, CNC, Bill Purvis, CNC, Charles de Winton, CLA, David Evans, Cwm Elan, Steve Rayner, WATO, Ruth Rourke, IPROW, Ian Mabberley LAFs, Chris Mills, Afonydd Cymru, Rebecca Brough, Ramblers Cymru, Sarah Smith, LIC, Gwenda Owen, Cycling UK, Fiona Clay-Poole, CLILC, Simon Pickering, LIC, James Nevitt , Defence Estates, Steve Williams, Chwaraeon Cymru, Phil Stone, Canŵ Cymru, Adrian Walls, CSS Cymru, Jonathan Hughes, NT Cymru, Dave Waterman, LARA, Helen Donnan, BHS<br><br>**Arsylwyr:** Kieron Foster, Cycling UK, Dave Maccallum, CNC, Quentin Grimley, CNC, Michael Smith, CNC, Eifion Jones, Cyngor Sir Ceredigion, Dave Liddy, CNC, Gwyn Lloyd Evans, Cyngor Sir Gwynedd, Bill Somerfield, LIC, Sarah Tindal, CNC, Matthew Williams, WSA, Rachel Parry, CNC,<br><br>**Siaradwyr:** Dawn Thompson, CNC, Tom Luddington, Fforwm Arfordirol Sir Benfro, Pam Bell, Dyfroedd Cymru, |
| **Ymddiheuriadau:** | Peter Rutherford, APC, Eben Muse, BMC, Barry Andrews, Y Cerddwyr Anabl |

| **Eitem** |
|---|
| ## 1. Croeso ac ymddiheuriadau. |

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau. Nododd y Cadeirydd y bu materion technegol wrth anfon e-byst cyn y cyfarfod a gosododd agenda'r cyfarfod.

## 2. Cysylltu pobl â natur ar y tir yn ein gofal: Strategaeth hamdden awyr agored CNC

Cyflwynodd Dawn Thompson drosolwg o'r strategaeth ddrafft, gan drafod y broses hyd yma a'r camau nesaf ar gyfer cymeradwyo a chyflawni'r strategaeth.

Atgoffodd Dawn y cyfarfod o'r angen i'r strategaeth ystyried y cwestiwn *'beth yw dyfodol hamdden ar dir y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofalu amdano, gan ystyried yr argyfyngau hinsawdd a natur, cynaliadwyedd a llesiant cenedlaethau'r dyfodol?*'

Roedd tri nod i'r strategaeth:

- Pennu cyfeiriad strategol ar gyfer hamdden ar dir rhydd-ddaliadol a phrydlesol a reolir gan CNC, a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a reolir gan CNC
- Cefnogi penderfyniadau lleol
- Rhannu'r hyn y mae CNC yn ei wneud a pham

Nododd Dawn y cyd-destun allanol ar gyfer y strategaeth, sydd wedi profi newid enfawr ers ffurfio CNC yn 2013 ac ers cyhoeddi'r cynllun corfforaethol cyntaf yn 2014. Cyd-destun y datganiad o argyfyngau hinsawdd a natur, y pandemig, costau byw a chostau ynni sy'n dal i ddigwydd nawr. Nododd fod yr elfennau hynny wedi cael effaith wirioneddol ar y cyd-destun y mae CNC a sefydliadau eraill yn gweithredu ynddo erbyn hyn. Y llynedd, cyhoeddwyd ail gynllun corfforaethol CNC. Wrth edrych yn ôl ar y newid a welwyd dros y 10 mlynedd diwethaf, mae angen meddwl am y dyfodol, ac mae angen i'r strategaeth hamdden fod yn ddigon ystwyth i wynebu'r hyn a allai ddigwydd dros y 10 mlynedd nesaf.

Rhoddodd Dawn grynodeb o'r broses o ddatblygu'r strategaeth hyd yn hyn, gan gynnwys 9 mis o waith ymgysylltu i gasglu mewnbwn sylweddol ar gyfer datblygu'r strategaeth, yn fewnol ac yn allanol. Rhoddodd grynodeb o rai o'r prif benawdau'n dilyn y gwaith ymgysylltu:

**Mynediad** - Defnyddio'r hyn sydd gennym eisoes a chreu dyll a sfonau cyson ar gyfer mynediad

**Atal** - Sicrhau cydbwysedd rhwng natur a phobl ac archwilio opsiynau cynaliadwy ar gyfer cyrraedd a defnyddio safleoedd

**Integreiddio** - Archwilio'r hyn y mae pobl eraill yn ei wneud, rhannu gwersi a chanfod tueddiadau ac anghenion y dyfodol

**Tystiolaeth** - Nodi'r data sydd gennym eisoes a'r data sydd ei angen arnom i werthuso darpariaeth o safbwynt tystiolaeth, a'i ddefnyddio i egluro penderfyniadau

**Cydweithio** - Gweithio mwy gyda phartneriaid ar wirfoddoli, darparu a chyfathrebu

**Ymrwymiad** - Gweithio gyda chymunedau ar gynnal a chadw a gwneud penderfyniadau i greu ymdeimlad o berchnogaeth

**Ymwybyddiaeth** - Darparu gwell cyfathrebu ac arweiniad ynghylch yr hyn y gall pobl ei wneud a lle gallant fynd

**Hirdymor** - Gwneud ein cynnig yn hyfyw trwy gydol y flwyddyn trwy addasu i wariant a natur dymhorol

Mae cysylltiad â natur yn darparu llesiant corfforol a meddyliol, ac yn ystod y pandemig cafwyd sawl astudiaeth yn egluro bod treulio amser ym myd natur yn cynnig buddion i bobl ac i natur. Mae pobl sydd â chysylltiad cryf yn debygol o fod yn dangos ymddygiad sydd o fudd i'r amgylchedd ac yn fwy ystyriol o'u heffaith e.e. ailgylchu ac ymddygiad sydd o fudd i natur megis cymryd rhan mewn gweithgareddau gwirfoddoli a chefnogi sefydliadau cadwraeth natur.

Drwy'r strategaeth, ceir cyfle i gefnogi'r cyswllt hwn drwy'r mynediad y mae CNC yn ei ddarparu, y gweithgareddau mae CNC yn eu cynnal a'r modd y mae CNC yn ymgysylltu â phobl yn yr amgylchedd naturiol. Mae'n cefnogi gweledigaeth y cynllun corfforaethol o natur a phobl yn ffynnu gyda'i gilydd.

Rhannodd Dawn strwythur y strategaeth, gan gynnwys gweledigaeth hirdymor hyd at 2050, y prif egwyddorion sy'n sylfaen i'r strategaeth, 8 nod strategol i gefnogi'r weledigaeth, gyda phob nod yn cynnwys 3-4 amcan ar gyfer pob un (mae'r amcanion ar gyfer tymor byrrach hyd at 2030 yn unol â'r cynllun corfforaethol). Byddai rhai camau gweithredu ar lefel genedlaethol a lleol yn cael eu datblygu drwy gynlluniau ardal a chyda phartneriaid.

Mae datganiadau 'byddwn' yn sylfaen ar gyfer cyflawni'r weledigaeth: arwain y ffordd, gwarchod ein lleoedd arbennig a mynediad i bawb, ac eglurodd Dawn ystyr y rhain.

Egwyddorion y strategaeth (print trwm) yw **byw o fewn ein gallu,** o ystyried y wasgfa ar y pwrs cyhoeddus, mae angen sicrhau'r budd mwyaf posibl, cydweithio gyda phartneriaid, gwella effeithlonrwydd a gwneud dewisiadau anodd ac angenrheidiol o ran lle gall CNC wneud y gwahaniaeth mwyaf. **Gwneud y gweithgaredd cywir yn y lle iawn**, cydbwyso pobl a natur, ymgysylltu â natur i wella llesiant, defnyddio tystiolaeth i lywio penderfyniadau gan ddefnyddio model parthau, i nodi ardaloedd ar gyfer hamdden, cymuned a natur. **Galluogi eraill i wneud mwy**, eisiau ei gwneud yn bosibl i gymunedau a sectorau eraill wneud mwy, symleiddio prosesau, gweithio gyda chymunedau a chefnogi prosiectau a chyfleoedd gan gynnwys gwaddol prosiectau.

Yna, bu Dawn yn amlinellu'r manylion y tu ôl i 8 nod y Strategaeth, gan egluro'r gwahanol ystyriaethau a syniadau sy'n sylfaen i'r rhain ac amlinellu mwy o nodau ac amcanion manwl. Tynnodd sylw at bwysigrwydd defnyddio tystiolaeth i lywio

penderfyniadau. Mae’r nodau a’r amcanion yn cyfrannu at gynllun corfforaethol CNC a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

Mae fframwaith gwerthuso wrthi’n cael ei ddatblygu ochr yn ochr â’r strategaeth. Bydd hyn yn cynnwys cyfres o ddangosyddion a ddefnyddir i fesur cynnydd.

**Pwyntiau trafod:**

- Nodwyd barn y dylid pwysleisio ar ddiogelu’r cymunedau sy’n byw yn yr ardaloedd a fydd yn cael eu rhoi mewn parthau, yn ogystal â gwarchod natur, a chwestiwn ynghylch rôl y gymuned yn y broses parthau.
- Ymatebodd Dawn mai pwrpas y parthau cymunedol yw gwneud hynny. Mae'r model parthau yn esblygu, ac mae hi'n edrych ar ddulliau ar gyfer sut mae cymunedau’n cymryd rhan yn y broses, mae angen deialog dwy ffordd i drafod paramedrau.
- Cafwyd sylw bod llawer o waith a meddwl wedi mynd i mewn i'r strategaeth ddrafft, gwerthfawrogi mai'r ffocws yw tir a reolir gan CNC, cwestiwn ynghylch i ba raddau y gellir hwyluso'r egwyddorion a'r syniadau ar draws cyrff cyhoeddus a chyrff eraill sy'n berchen ar dir.
- Nododd Dawn fod gan CNC rôl sylweddol o ran arwain y ffordd a dylanwadu, gan hefyd osod safonau uchel ac egwyddorion, ynghyd â gweithio gydag eraill ac edrych yn ôl ar eu harferion. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar dir sydd yng ngofal CNC ond gall weld bod manteision ehangach i weithio gyda sefydliadau eraill i sefydlu'r un egwyddorion yn eu gweithrediad yn ogystal â gweithio gyda LIC.
- Cafwyd awgrym ynghylch gwrthdaro buddiannau posibl, o ran rôl cadwraeth natur ac annog llawer o bobl i ymweld â chefn gwlad. Cwestiwn ynghylch a oedd Dawn yn rhagweld unrhyw wrthdaro. Efallai y dylid edrych ar addysgu pobl i wybod sut i ymddwyn a pharchu eiddo.
- Nododd Dawn, er ei bod am annog pobl i fynd allan i ardaloedd a lleoedd arbennig, o ystyried yr argyfyngau hinsawdd a natur, mae’n rhaid cael cydbwysedd. Ceir tystiolaeth benodol yn y nod pobl a natur yn y strategaeth hon, ac i gael fframweithiau ar waith i sicrhau bod lleoedd arbennig yn cael eu gwarchod, ond wrth gysylltu pobl â natur, y gobaith yw ceisio annog ymddygiad cadwraeth a chael pobl i ddeall mwy am yr amgylchedd. Mae’r nodau yn y strategaeth yn rhoi’r offer i wneud hyn er mwyn helpu i ganolbwyntio lle mae CNC yn cynnal gweithgareddau. Mae’n bwysig hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ac ymddygiad cyfrifol a gweld ffocws ar hyn yn y strategaeth, gan addysgu pobl hŷn yn ogystal â phobl ifanc.
- Mewn ymateb i gwestiwn am lefel yr ymgysylltu hyd yma ag awdurdodau lleol, gan nodi eu rôl fel y darparwyr addysg, nododd Dawn fod awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn y gwaith ymgysylltu ond bydd y drafodaeth bellach yn canolbwyntio ar y camau i'w cymryd mewn ardaloedd lleol. Angen map rhanddeiliaid o bob tîm seiliedig ar le ac ardal leol er mwyn cynnwys pobl yn y sgwrs i’w wireddu ac edrych ar yr hyn y gallwn ei rannu. Mae gweithio mewn partneriaeth yn allweddol o ran gweithio gyda sefydliadau eraill i fynd i’r afael â’r prif faterion. Mae’r ffocws ar dir sydd yng ngofal CNC ond mae effeithiau a

photensial ehangach wrth gyflenwi sefydliadau eraill. Roedd rhai awdurdodau wedi cyfrannu, ond mae trafodaethau pellach i'w cael er mwyn ymgysylltu ar lefel leol.

- Bu Tom Luddington o Fforwm Arfordirol Sir Benfro yn cefnogi gyda'r gwaith ymgysylltu a'r arolwg a dderbyniodd dros 4,000 o ymatebion. Bu'n edrych ar sut yr oedd y strategaeth ddrafft wedi ymgorffori prif themâu'r gwaith ymgysylltu, gan gynnwys bod gweithio fel partneriaeth yn amlwg, a dyna beth oedd pobl ei eisiau mewn gwirionedd. Awgrymodd fod defnyddio eraill fel llysgenhadon yn ffordd dda o gadarnhau arfer gorau yn yr awyr agored a chyfleu'r negeseuon hynny i ysgolion. Mae gwella prosesau hefyd wedi'i nodi'n glir. Mae angen dechrau gweithio mewn partneriaeth nawr i ddatblygu'r camau gweithredu ac i gynnwys cymunedau a phartneriaid.
- O ran y newidiadau hamdden sy'n cael eu hystyried a allai ddigwydd hyd at 2050, nododd Dawn y byddai CNC eisiau gweld mwy o bobl yn deall natur, ond hefyd yn gwybod sut i'w ddiogelu, ynghyd â defnyddio buddion ehangach cysylltu â natur i ddylanwadu ar les meddyliol a chorffodol, a sut y gallwn ddefnyddio newidiadau i ddylanwadu ymhellach ar ein dealltwriaeth o natur. Mae angen i'r strategaeth ganolbwyntio ar fuddion ehangach a dylanwadu ar newid ym mywydau pobl yn hytrach na dilyn tueddiadau hamdden.
- Yng nghyd-destun parthau, cafwyd cwestiwn ynghylch sut y caiff hyn ei wneud os nad ydym yn gwybod beth fydd yn digwydd yn y dyfodol, a phwy fydd yn gwybod am y parthau hyn. Mae defnyddio tystiolaeth yn iawn, ond mae hefyd angen gallu cwmpasu ar gyfer y dyfodol mewn ffordd gadarn sy'n gweithio i Gymru.
- Nododd Dawn fod datblygiad y parthau yn ei gyfnod cynnar, ac felly ni fyddai'n gallu ateb cwestiynau manwl, ond maent wedi amlinellu'r 3 math yr ydym yn credu y bydd eu hangen arnom. Mae angen edrych ar sut i asesu'r parthau, a beth mae pob un yn ei gwmpasu. Gallai fod yn ddefnyddiol i edrych yn ehangach ar hyn ar gyfer Cymru, ac i gael yr un model parthau ledled Cymru. Pwysleisiodd Dawn fod tystiolaeth a data yn allweddol, er mwyn llywio penderfyniadau yn fwy effeithiol.
- O ran amserlen symleiddio prosesau CNC, ceir nifer o brosesau, e.e. caniatâd, lle mae gwaith eisoes ar waith gyda ffurflen newydd ar-lein, gan weithio ar bolisi caniatâd mewnol ac i symleiddio'r broses honno.
- Ddim yn ymwybodol bod arolwg cyflwr o Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi ei gynnal ar dir a reolir gan CNC
- Anfonwyd yr arolwg a chafodd ei rannu'n eang gan rai sefydliadau i fwy o aelodau - ond nid gan eraill. Sut y cafodd yr arolwg ei fesur.
- Nodwyd bod rhai sefydliadau wedi dosbarthu'r arolwg yn ehangach nag eraill. Cafwyd ymateb enfawr, gan gynnwys data testunol. Er mwyn prosesu'r rhain, cafodd ymatebion i'r cwestiynau eu grwpio o fewn themâu ar gyfer pob cwestiwn, h.y. gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na phwysoli ar niferoedd. Mae gwaith ac ymgysylltiad parhaus i'w wneud gyda grwpiau ar lefel leol. Mae CNC wedi cael lefel lawn o fanylion.
- Gwelir cyfeiriad at Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn y lefel nesaf o fanylder, a bydd pethau eraill hefyd yn cael eu nodi yn y camau gweithredu. Mae CNC fel ymgynghorai ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn

cynnwys cyswllt a chysylltiadau lleol, a fydd yn bwydo i mewn i’r strategaeth ac o ran cysylltiad o gyfeiriad arall.

## 3. Ymgynghoriad Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - is-grŵp

Adroddodd Jont Bulbeck i'r Fforwm am yr is-grŵp a gynhaliwyd ar 15 Chwefror i ystyried yr ymgynghoriad SFS. Roedd nodyn drafft wedi'i ddosbarthu i'r rhai a oedd yn bresennol. Nododd Jont y bu lefel dda o bresenoldeb gydag 20 o fynychwyr ar draws holl fuddiannau sectoraidd y Fforwm. Atgoffodd Jont yr aelodau bod is-grwpiau'n cael eu cynnal o bryd i'w gilydd pan fo'r Fforwm eisiau mwy o amser ar gyfer trafodaeth fanwl ar bynciau. Nid datblygu ymateb NAFW neu gyflwyniad y cytunwyd arno yw'r nod ond yn hytrach rannu barn a chaniatáu i sefydliadau ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain, ac yn achos ymgynghoriad i gyflwyno eu hymatebion eu hunain. Mae deall a chlywed barn pobl eraill yn helpu pobl. Mynychodd LIC y cyfarfod i arsylwi, felly rhoddodd hyn adborth anffurfiol.

Roedd Carys a Jont wedi datblygu themâu i roi cyd-destun i fframio trafodaethau cyfarfodydd o ran cylch gorchwyl y Fforwm, roedd hyn yn canolbwyntio ar fynediad hamdden ac unrhyw faterion eraill yr oedd mynychwyr am eu codi. Roedd nodiadau’r cyfarfod yn crynhoi'r drafodaeth o amgylch

- Rheolau'r cynllun
- Camau gweithredu cyffredinol – yn enwedig nad oedd un ar gyfer mynediad hamdden
- Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)
- Gweithredoedd Dewisol a Chydweithredol
- Unrhyw faterion eraill

Roedd amrywiaeth eang o safbwyntiau a rhai gwahaniaethau rhwng buddiannau sectoraidd ond hefyd o fewn buddiannau sectoraidd. Hefyd rhai meysydd eang o gefnogaeth, nad oedd pob un ohonynt yn amlwg ar unwaith, a amlygodd fantais y gallu i ystyried manylion a chymhlethdodau mewn is-grŵp. Tynnodd Jont sylw at rai pwyntiau allweddol:

- Rheolau’r cynllun – yn fras roedd cefnogaeth, ond nid ar draws yr holl sectorau. O fewn y rheini - cydymffurfio â rhwymedigaethau mynediad cyhoeddus o fewn deddfwriaeth. Gwahaniaeth – pryderon gan gynrychiolwyr sefydliadau sy’n ddeiliaid tir eu bod yn cael eu cynnwys. Llawer o sylwadau ynghylch yr angen am gymorth ac adnoddau o ran manylion sut y byddai rheolau’r cynllun yn gweithio.
- DPP - Roedd llawer o gefnogaeth eang er ei fod yn amodol ar bersbectif buddiannau sectoraidd - o ran sut y byddai mynediad hamdden yn cael ei gynnwys. Cefnogaeth ynghylch iechyd a diogelwch ac os yw mynediad hamdden wedi'i gynnwys yn y cynllun y dylai fod gwybodaeth yn ymwneud â hynny.

- Yn ystod y drafodaeth roedd llawer o gefnogaeth eang i rai materion, roedd gwella hygyrchedd a'r mynediad lleiaf cyfyngol posibl yn amlwg, boed yn ymwneud â rheolau'r cynllun, neu ddarpariaeth neu ddatblygiad mynediad newydd. Roedd Hamdden Cyfrifol yn thema arall a gefnogwyd yn gyffredinol.
- Yn fras, cefnogaeth i ddarpariaeth hamdden a mynediad o fewn y cynllun yn yr elfennau dewisol a chydweithredol, mewn perthynas â chael cymysgedd o fynediad parhaol â thâl a mynediad ar sail caniatâd, gyda'r olaf yn borth posibl i fynediad parhaol ac roedd cytundeb ar draws y buddiannau sectoraidd o ran y pwynt hwnnw ar gyfer elfennau dewisol a chydweithredol.
- Mae cefnogaeth eang i sicrhau mynediad cyhoeddus yn cael ei gydnabod fel cyfyngiad (neu gyfyngiad o ran yr ymgynghoriad) o amgylch elfennau a chamau gweithredu eraill y gellir eu cymryd e.e. plannu coetiroedd, lle mae ffensys yn mynd i mewn fel rhan o gynllun, pyllau ac ati sy'n gallu ymyrryd neu rwystro HTC, gan newid y math o dir mewn perthynas â thir mynediad agored.
- Ar ôl crynhoi pynciau'r cyfarfod, gwahoddodd Jont adborth gan fynychwyr yr is-grŵp i wneud sylwadau ar y drafft a rhoi adborth i Jont ar gywirdeb neu feysydd pwyslais. Nodwyd o ran ymateb i'r ymgynghoriad bod y dyddiad cau ymhen ychydig ddyddiau. Darperir y nodyn fel cofnod ond mater i sefydliadau unigol yw bwrw ymlaen â'u hymatebion eu hunain i'r ymgynghoriad

**Trafodaeth**

- Nododd CLA fod yna, o ran llawer o aelodau sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth yn uniongyrchol, ragdybiaeth fawr y bydd aelodau'n ymuno â'r cynllun. Mae aelodau'n gweld yr amodau'n feichus, sy'n awgrymu y bydd yn rhaid i LIC wneud newidiadau sylweddol i'r cynllun cyffredinol. Felly, am y tro, elfen o freuddwyd gwrach - nid yw'r aelodau'n hapus â'r broses. Methu gwneud penderfyniadau busnes tymor hir heb unrhyw wybodaeth ariannol, sy'n ei gwneud yn anodd i ffermwyr a thirfeddianwyr gytuno i hyn.
- Er bod hyn yn cael ei gydnabod a'i drafod penderfynodd yr is-grŵp ystyried y cynigion ymgynghori ond cydnabu fod hwn yn broblem - ond ei fod y tu hwnt i gwmpas trafodaethau'r is-grŵp. Os nad yw pobl yn ymuno byddai'n ddibwynt braidd
- Nodwyd y drafodaeth fywiog fel rhan o'r is-grŵp. Mae nodiadau yn crynhoi ac yn darparu persbectif gwerthfawr. Ceir enghreifftiau rhagorol, a thrafodaeth aml-fuddiannol rymus. Mae Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru mewn sefyllfa dda i ddarparu, gobeithio y gall grwpiau buddiant aelodau gynnwys pwyntiau yn eu hymatebion eu hunain
- Teimlad gan CA nad yw SFS yn ymarferol i'r mwyafrif o ffermwyr yng Nghymru, mae unrhyw beth yr ydym ei eisiau mewn perthynas â mynediad yn dibynnu ar yr hyn y mae LIC yn ei wneud â'r cynllun. Mae'n bwysig cydnabod bod angen troedio'n ofalus - nodwyd bod morâl yn is nag erioed. Mae pwysau aruthrol ar unigolion, mae angen bod yn ymwybodol o freuder y gymuned ffermio.
- Adleisiodd y Cadeirydd y pryderon hyn am y dyfodol, a'r gallu i gynllunio, a'r pwysau hirdymor ac enfawr sy'n effeithio ar iechyd meddwl ffermwyr.

## 4. Cyfraniadau ysgrifenedig

Nodwyd cyfraniadau ysgrifenedig gan LIC a Dŵr Cymru, mae cysylltiadau e-bost ar gyfer cyfranwyr wedi'u cynnwys er mwyn hwyluso'r gwaith dilynol ar y rhain.

## 5. Cais am aelodaeth o Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – Dyfroedd Cymru

Cyflwynodd Pam Bell, un o ymddiriedolwyr Dyfroedd Cymru (WoW)/Dyfroedd Cymru, i'r Fforwm i wneud cais am aelodaeth.

Esboniodd Pam beth oedd gwreiddiau a chefndir WoW yn y cyfnod cyn y Ddeddf CGaHT, pan welsant angen am lais cryfach ar gyfer mynediad at ddŵr; a hefyd un sy'n pontio'r ffiniau rhwng gwahanol weithgareddau sy'n digwydd ar ddŵr.

Dadleuodd Bwrdd Cymdeithas Ganŵio Cymru (WCA), yr oedd Pam yn aelod ohono, am ddeddf debyg yng Nghymru i'r mater diwygio tir yr Alban, a chafodd hyn dderbyniad da i ddechrau, gan fynd drwy ddau ymchwiliad, ond yna cafodd y ddeiseb ei gollwng.

Ffurfiwyd WoW yn 2014 fel grŵp anghyfansoddiadol i fwrw ymlaen â'r ymgyrch dros fynediad a gychwynnwyd gan Gymdeithas Ganŵio Cymru. Nododd Pam fod yr holl aelodau a sefydlodd WoW yn dod o WCA, pob un â chefndir mewn chwaraeon padlo/hyfforddi. Mae aelodaeth gynnar yn bennaf yn dod o'r gymuned chwaraeon padlo, ond mae wedi ehangu'n raddol. Sail deiseb WCA oedd y gred y dylai mynediad fod ar gael yn rhwydd i bawb, roedd hyn yn denu aelodau o bob cefndir a oedd am fwynhau dŵr.

Nododd Pam nad oes gan WoW aelodaeth gofrestredig ffurfiol, ond rhoddodd amcangyfrif ceidwadol o 4.5k o aelodau ar draws y cyfryngau cymdeithasol, tanysgrifwyr e-bost, a niferoedd cofrestru ar gyfer rolau gwirfoddoli. Nid oes ffi aelodaeth na ffurflen gofrestru ond mae pobl sydd wedi mynegi diddordeb yn dilyn ac yn rhyngweithio â WoW. Mae gan rai aelodau arbenigedd technegol sylweddol, gyda nifer fach o aelodau tramor sy'n rhoi cipolwg ar y ffyrdd y mae pethau'n cael eu gwneud mewn gwledydd eraill.

Amlinellodd Pam weledigaeth WoW ar gyfer

'Pob aelod o'r cyhoedd i ymgysylltu'n gadarnhaol â'n dyfroedd, mannau glas a'r amgylchedd ehangach, ac i fwynhau eu hawliau hamdden mannau glas cynaliadwy.'

gan nodi, er mwyn i hynny ddigwydd, fod angen cael rhai hawliau i hamdden mannau glas cynaliadwy, a byddant yn amrywio yn dibynnu ar bwy sydd eisiau defnyddio'r dŵr mewn gwirionedd.

Mae WoW wedi cael gwybod bod diffyg eglurder yn y gyfraith wedi bod yn faen tramgwydd i'r cynnydd ac wedi iddo gael ei ffurfio fel grŵp, eu cam cyntaf oedd ceisio deisebu'r Cynulliad Cenedlaethol i geisio eglurder o ran y sefyllfa gyfreithiol, cafodd

hyn ei wrthod ar y sail nad oedd yn rhan o'u cylch gorchwyl. Bu deiseb arall yn aflwyddiannus.

Mae WoW ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar sefydlogi mynediad presennol. Mae'n ymddangos bod rhywfaint o athreuliad o ran mynediad, hy. mae'n ymddangos bod pwyntiau mynediad i ddŵr yn cael eu colli ee. cynllunio, hawliau tramwy.

Mae WoW yn credu bod angen natur ar bobl ac mae byd natur angen pobl, felly eisiau gwneud yn siŵr bod y mynediad sydd gennym ni yn aros yn agored wrth ystyried sut i symud yr ymgyrch yn ei blaen.

Dal i ymgysylltu â’r broses, cylchredeg maniffesto, codi materion ac ymateb i ymgynghoriadau’r llywodraeth, ymateb i geisiadau cynllunio, llawer o aelodau’n gwirfoddoli ac yn gwneud gwaith cadwraeth a samplu dŵr, ymdrechion i ofalu am yr amgylchedd ond hefyd sicrhau bod gan y cyhoedd fynediad.

Yna amlinellodd Pam y pwyntiau allweddol o faniffesto WoW:

https://www.bluespaceact.org/docs/Waters_of_Wales_Bluespace_Manifesto_2021_ENG.pdf

**Cwestiynau**

Cwestiwn: Ble mae WoW yn ffitio mewn perthynas â mynediad mannau glas a'r ymddiriedolaeth cadwraeth? Beth yw'r strwythur llywodraethu ac a yw'n sefydliad â chyfansoddiad cyfreithiol?

Eglurodd Pam fod WoW â chyfansoddiad cyfreithiol fel elusen gofrestredig (yr un endid cyfreithiol ag ymddiriedolaeth cadwraeth mannau glas a mynediad ac mae ganddi nifer o enwau gweithredol). Mae pedwar ymddiriedolwr, mae Pam yn un ohonyn nhw.

Cwestiwn: Aelodaeth - a oedd aelodaeth WoW yn aelodaeth â thâl?

Cadarnhaodd Pam nad ydynt yn codi tâl am aelodaeth. Nodir y rheswm am hyn - ymgyrchu dros fynediad i bawb, felly ddim yn teimlo y byddai'n briodol, ac eisiau bod yn agored i unrhyw aelod o'r cyhoedd

Cwestiwn: a fyddai’r sefydliad mewn sefyllfa i anfon cynrychiolydd ac i gyfrannu at gyfarfodydd.

Cadarnhaodd Pam y byddai WoW yn mynychu, ac mae'n debygol y byddai Pam yn bresennol fel llefarydd neu y byddai ymddiriedolwr arall yn cael ei enwi'n gynrychiolydd pan fo angen.

Cwestiwn – o ystyried yr aelodaeth fawr, sut mae WoW yn gwybod barn aelodau i gyflwyno eu barn i'r Fforwm?

Ymatebodd Pam mai prif ffordd o gasglu barn yw drwy arolygon ar-lein ac e-bost yn ogystal â chasglu barn mewn digwyddiadau.

Gofynnwyd i arsylwyr adael yr ystafell tra bod y cais aelodaeth yn cael ei ystyried.

**Trafodaeth Aelodau a Chynrychiolwyr a Enwyd**

Atgoffwyd yr aelodau o ddiben trafodaeth o ran cais aelodaeth, fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl:

'Nod y drafodaeth am y cais yw dod i gonsensws bras (nid o reidrwydd yn unfrydol) ynghylch a ddylid derbyn aelodaeth gan yr ymgeisydd. Y prif feini prawf i aelodau eu hystyried yw:

a. A yw'r sefydliad wedi dangos diddordeb digonol mewn mynediad hamdden i'r awyr agored ac ymgysylltu â hynny
b. Bod gan y sefydliad ddigon o brofiad ac arbenigedd ar lefel genedlaethol sy'n berthnasol i waith y Fforwm, ac yn gallu cyfrannu at lywio'r gwaith
c. Bod y sefydliad wedi dangos ei fod yn cytuno i aelodaeth yn seiliedig ar y Cylch Gorchwyl
d. Ac yn olaf, bod yna gytundeb eang rhwng yr aelodau i'r sefydliad ymgeisio ddod yn aelod o'r Fforwm.

Yn dilyn trafodaethau a sylwadau gan aelodau, crynhowyd y camau gweithredu a'r pwyntiau a ganlyn:

Ni ddaethpwyd i gonsensws ar aelodaeth WoW yn seiliedig ar y cyflwyniad. Oherwydd materion technegol o ran cylchredeg gwybodaeth cyn y cyfarfod, nid oedd yr aelodau wedi cael cyfle i adolygu maniffesto WoW.

Cytunwyd y byddai'r wybodaeth gefndir yn cael ei hailgyhoeddi drwy e-bost i'r aelodau a oedd yn bresennol a gofynnwyd am farn ynghylch a ddylid gwahodd:

a) Aelodaeth lawn – byddai WoW yn mynychu cyfarfodydd ac yn cymryd rhan lawn
b) Gwrthod aelodaeth – bydd WoW yn gallu mynychu cyfarfodydd fel sylwedydd ond ni fydd yn cael ei ychwanegu at y rhestr bostio
c) Aelodaeth ohebu (gweler pwynt 39) – byddai WoW yn cael ei ychwanegu at y rhestr ddosbarthu a chael papurau, ac yn cael hysbysiad o gyfarfodydd i'w mynychu fel sylwedydd, ond ni fyddai'n cael ei wahodd i gymryd rhan yn y cyfarfodydd

**<u>Cam(au) 77.1:</u>**

Ysgrifenyddiaeth i wneud y canlynol:

- rhoi gwybod i Pam Bell na ddaethpwyd i benderfyniad a gofyn am eglurhad o ran statws y sefydliad
- cylchredeg e-bost i'r aelodau sy'n bresennol gyda gwybodaeth gefndir a pharhau â'r cais aelodaeth trwy e-bost

Aelodau sy’n bresennol i ymateb drwy e-bost gyda’u barn ynghylch cais aelodaeth WoW er mwyn llywio penderfyniad CNC,

## 6. Sylwadau i gloi

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gyfrannodd at y cyfarfod.